# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R Meirion Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Llinos Medi Huws, Victor Hughes, Gwilym O Jones, Robert Llewelyn Jones, Peter S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr<br>Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br>Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol<br>Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrhau Ansawdd) (GL)<br>Swyddog Cwynion Dynodedig a Datblygu Gofal Cwsmer (SS)<br>Rheolwr Sgriwtini (BS)<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorydd Raymond Jones<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant (AH) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai) |

---

Ar ran y Pwyllgor estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i'r Cynghorydd Raymond Jones am wellhad buan yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar o ganlyniad i salwch.

Estynnodd y Pwyllgor ei gofion a’i ddymuniadau gorau at Mr John R Jones, Prif Swyddog, Medrwn Môn am iechyd da ar gyfer ymddeoliad hir a hapus. Mae Mr Jones wedi bod yn selog yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol dros nifer o flynyddoedd, a diolchwyd iddo am ei holl waith caled a'i ymroddiad.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol yn eitem 5 gan y Cynghorydd Ann Griffith gan ei bod yn aelod o Banel y cyfeirir ato yn y drafodaeth.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 23 Mai, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir, yn amodol ar y canlynol: -

‘Roedd y Cynghorydd Peter Rogers yn dymuno iddo gael ei nodi nad oedd ei absenoldeb o'r cyfarfod blaenorol wedi ei gynnwys yn y cofnodion er bod cyfnod ei waharddiad wedi dod i ben.

**Eitem 3 - Diweddariadau gan yr Aelodau**

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at y Diweddariadau gan yr Aelodau. Dylai cofnodion y cyfarfod blaenorol fod wedi cyfeirio at y Byrddau Prosiectau Trawsnewid yn ogystal â’r Byrddau Rhaglen.

**Eitem 4 - Adroddiad ar Ganlyniadau Refeniw 2015/16**

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini fod y Pennaeth Adnoddau wedi gweithredu ar gais y Cynghorydd Llinos Medi Huws i newid blaen yr adroddiad i ddangos y gwahaniaeth yn y tanwariant yn Ch4.

**Eitem 5 - Adroddiad ar Ganlyniadau Cyfalaf 2015/16**

Adroddodd y Rheolwr Sgriwtini bod y Pennaeth Adnoddau hefyd yn gwneud y gwaith ar y matrics sgorio yr oedd y Pwyllgor wedi argymell y dylid ei ailystyried.

**Eitem 11 – Adolygu’r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion**

Cyfeiriodd y Rheolwr Sgriwtini at bwynt 2 yn y penderfyniad yn y cofnodion - a oedd yn gofyn am sefydlu symposiwm i ystyried effaith y cynigion ar bentrefi yn Ynys Môn. Dywedodd y Rheolwr Sgriwtini ei bod wedi trafod cynnull symposiwm gyda'r Pennaeth Dysgu, a’i bod wedi ymateb nad oedd ganddi’r capasiti ar gyfer cynnal symposiwm. Fodd bynnag, nodwyd y byddai rhai o'r materion a godwyd yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr effaith bosib ar bentrefi yn Ynys Môn yn cael eu cynnwys mewn rhaglen ymgynghori newydd y byddai'r Adran Addysg yn ei chynnal maes o law.

O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor i dynnu'r cais am symposiwm yn ôl ond byddai'n monitro'r ymgynghoriad pan gyflwynir adroddiad pellach ar foderneiddio ysgolion.

**Gweithredu: Rheolwr Sgriwtini i roi gwybod i'r Pennaeth Dysgu.**

**3 DIWEDDARIADAU GAN YR AELODAU**

Ar ôl ymgynghori â’r Pennaeth Trawsnewid ac Aelodau'r Pwyllgor, **PENDERFYNWYD nodi bod yr Aelodau canlynol yn cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Byrddau Trawsnewid a restrir isod: -**

<u>**Byrddau’r Rhaglen Drawsnewid**</u>

- **Llywodraethiant a Phrosesau Busnes** - Y Cynghorydd R Meirion Jones
- **Partneriaeth, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau** - Y Cynghorydd Derlwyn Hughes

**<u>Byrddau Prosiectau Trawsnewid</u>**

- **Oedolion** - Y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones
- **Moderneiddio Ysgolion** - Y Cynghorydd Llinos Medi Huws
- **Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant** - gwag

**PENDERFYNWYD:**

- **Bod y Pwyllgor yn penodi'r Cynghorydd Gwilym O Jones fel cynrychiolydd Sgriwtini ar y Bwrdd Llyfrgelloedd, Ieuenctid a Diwylliant.**

- **Bod y Pennaeth Trawsnewid yn rhoi crynodeb o'r prif bwyntiau a drafodwyd, ac yn ystyried fformat priodol i grynhoi adrodd ar waith y Byrddau Rhaglen Trawsnewid a Byrddau Prosiect i'r dyfodol, efallai ar ffurf dangosfwrdd, erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini, ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn chwarterol.**

- **Gofynnodd y Rheolwr Sgriwtini bod y Pennaeth Trawsnewid yn rhoi rhestr swyddogol o'r holl Fyrddau Prosiect a holl Fyrddau'r Rhaglen Drawsnewid i'r Pwyllgor, gan restru'r holl Aelodau fel Aelodau Portffolio Cysgodol neu gynrychiolwyr Sgriwtini.**

**Gweithredu: Pennaeth Trawsnewid i ymateb.**

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AM 2015-16**

Cyflwynwyd - drafft terfynol yr Adroddiad Blynyddol gan Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2015/16 i'w ystyried ac ar gyfer sylwadau cyn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith.

Mae'r adroddiad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ac atebolrwydd ar gyfer y perfformiad a'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu gwasanaethau cymdeithasol, ac yn amlinellu'r ffocws ar gyfer gwella ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwerthusiad trylwyr o'r holl feysydd gwasanaeth gan ddefnyddio dadansoddiad grid sy'n nodi amcanion, cyflawniadau a chanlyniadau'r gwasanaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

Nodwyd o'r adroddiad bod rhai elfennau o'r Gwasanaethau Plant yn fregus, yn enwedig y sefyllfa staffio, ar adeg pan fu pwysau ar y gwasanaeth yn sgil nifer gynyddol o blant ar y Gofrestr a mwy o blant sy'n derbyn gofal. Mae angen moderneiddio'r gwasanaethau Anawsterau Dysgu a gwasanaethau Iechyd Meddwl yn y Gwasanaethau Oedolion. Dyrannwyd arian ychwanegol i'r Gwasanaethau Plant gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Mawrth, a oedd yn helpu i leddfu'r pwysau ar staff yn ystod cyfnod o gynnydd yn y galw am wasanaethau. Mae'r heriau i'r dyfodol yn parhau ac maent yn cael sylw'n gorfforaethol.

Gwnaed cynnydd hefyd yn y Gwasanaethau Oedolion. Rhoddwyd pwyslais ar bwysigrwydd cyfuno adnoddau'r Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant

a gweithio mewn partneriaeth â chyrff eraill ee Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Gwynedd a chynghorau eraill ar draws Gogledd Cymru.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion drosolwg i'r Pwyllgor o'i adroddiad mewn perthynas â chynnydd a chyflawniadau yn ystod 2015/16, ac amcanion i'r dyfodol, gan gynnwys gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Codwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau yn ystod y drafodaeth: -

- Bregusrwydd y Gwasanaethau Plant, fel yr amlygwyd gan AGGCC yn eu hadroddiad ar gyfer 2015/16;
- Ansefydlogrwydd y sefyllfa staffio yn y Gwasanaethau Cymdeithasol - y broses o recriwtio a chadw staff o fewn yr Awdurdod, yn enwedig Gweithwyr Cymdeithasol; rôl staff asiantaeth o fewn y Cyngor;
- Arferion Llys fel rhan o hyfforddiant Gwaith Cymdeithasol;
- Buddsoddiad yr Awdurdod Lleol yn y Gwasanaethau Plant a mwy o alw am y Gwasanaeth;
- Diogelu;
- Cryfhau gofal cartref;
- Hybiau Cymunedol;
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd;
- Pobl Hŷn yn integreiddio gyda phobl ifanc;
- Cynllun Ymyrraeth Gynnar;
- Tîm o Amgylch y Teulu;
- Ariannu'r Sector Gwirfoddol.

Gofynnwyd am wybodaeth am y gwasanaeth gofal cartref yn Ynys Môn. Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar sut mae'r gwasanaeth wedi esblygu. Dywedodd fod y ddarpariaeth gofal cartref mewn ardaloedd trefol yn gweithio'n dda, ond ei fod yn anos i'w gyflawni mewn ardaloedd gwledig. Adroddodd ymhellach y bydd y Gwasanaeth yn mynd allan i dendr yn fuan, a bod angen sefydlu tri phecyn gofal - gyda staff wedi'u lleoli yng ngogledd, canolbarth a de Ynys Môn. Bydd yr Awdurdod yn gweithio ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, a bydd yn cefnogi cytundeb lle bydd disgwyl i ddarparwyr bigo i fyny'r holl waith a ddyrannwyd yn eu hardaloedd; bod â rota mwy hyblyg; gweithio o fewn amserlen benodol, yn hytrach na'r model presennol o brynu yn y fan a'r lle.

**Gofynnwyd i'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ddarparu'r wybodaeth hon yn yr adroddiad sy'n ymwneud â heriau yn y system gofal cartref gyfredol a'r newidiadau y bwriedir eu gwneud i ddelio â hyn.**

**Gweithredu:  Fel y nodir uchod.**

**PENDERFYNWYD: -**

- **Derbyn yr adroddiad yn amodol ar y sylwadau cyffredinol a wnaed gan y Pwyllgor.**

- **Bod Cyfarwyddwr dynodedig y Gwasanaeth Cymdeithasol yn ailymweld â'r adroddiad i ychwanegu cyfeiriadau cryfach at yr heriau a gododd y llynedd yn y Gwasanaethau Plant a sut y mae'r Gwasanaeth yn delio â hwy.**

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR GWYNION – GWRANDO A DYSGU O GWYNION (GWASANAETHAU CYMDEITHASOL)**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Plant ar ddyletswydd y Cyngor i ddarparu Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini perthnasol i fonitro'r trefniadau ar gyfer ymdrin yn effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth (Diogelu a Sicrhau Ansawdd) grynodeb manwl o'r adroddiad a oedd yn cyfeirio at sylwadau cadarnhaol a negyddol am y gwasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Oedolion a'r Gwasanaethau Plant.

Cyfeiriodd Aelod at bwynt 8 yn yr adroddiad – y protocol ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a godwyd yn y sesiwn friffio ac a gymeradwywyd gan Aelodau'r Pwyllgor.

Nododd yr Aelodau sylwadau a wnaed gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2015/16 ynghylch y gwasanaethau a ddarparwyd gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn ogystal, cydnabu'r Aelodau berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol wrth weithredu'r Weithdrefn Sylwadau a Chwynion a delio â chwynion.

Croesawodd y Pwyllgor y Cynllun Gweithredu ar gyfer datblygu'r trefniadau ar gyfer ymdrin yn effeithiol â sylwadau a chwynion gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad a gofynnodd a oedd Adroddiad Cwynion Blynyddol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei rannu gyda'r Swyddog Cwynion Corfforaethol i gyferbynnu fformatau. Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol y gellid ei rannu'n gorfforaethol.

**PENDERFYNWYD:**

- **Bod y trydydd argymhelliad ym mhwynt 8 yr adroddiad yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer 2016/17;**

- **Bod yr adroddiad blynyddol 'Gwrando a Dysgu o Gwynion' gan y Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei rannu'n gorfforaethol.**

**Gweithredu: Bod Swyddog Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (S. Shanahan) yn gweithredu ar benderfyniadau 1 a 2 a bod y Rheolwr Sgriwtini yn gweithredu ar benderfyniad 3.**

## 6 RHAGLEN WAITH SGRIWTINI

Cyflwynwyd – Blaenraglen Waith y Pwyllgor am y cyfnod o fis Mai, 2016 i fis Mai, 2017.

Crybwyllodd un Aelod y math o adroddiadau oedd yn cael eu rhannu gyda Sgriwtini a gofynnodd i Gyfarwyddwr dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol a yw sgriwtineiddio ansawdd y gwasanaethau cymdeithasol yn flaenoriaeth fel yr oedd hi'n ei dybio.

Yn ogystal, nodwyd bod tendro am wasanaethau gofal cartref, ôl-ofal a thaliadau Teleofal yn y Gwasanaethau Oedolion oll ar y Rhaglen Waith hyd at fis Tachwedd, ond nad oedd unrhyw eitemau ar ôl y dyddiad hwnnw. Holwyd a oedd yn deg mai'r unig ffordd i sgriwtineiddio ansawdd yn ystod y cyfnod hwn oedd trwy'r Cerdyn Sgorio?

**Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol trwy ddweud ei bod yn bwysig cynnwys themâu perthnasol, a chynigiodd siarad â'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Rheolwr Sgriwtini.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**PENDERFYNWYD: Derbyn yr adroddiad.**

Daeth y cyfarfod I ben am 4.30 pm

**Y CYNGHORYDD R MEIRION JONES**
**CADEIRYDD**